astudiaethachos

Ysgol Lewis Pengam, Caerffili

mark baker

Mark Baker, Dirprwy Bennaeth a Rheolwr y Prosiect

Mae Ysgol Lewis Pengam yng Nghaerffili yn addysgu dros 1000 o ddisgyblion o flwyddyn saith i dair ar ddeg. Gweithia chwechdeg pump o staff, yn cynnwys deg o weinyddwyr swyddfa, yn yr ysgol o ddydd i ddydd ac felly mae cyfathrebu mewnol effeithiol yn fater pwysig yn yr ysgol.

Roedd Mark Baker, Dirpwy Bennaeth, yn chwilio am adnodd i ymdrin ag asesiad yn yr ysgol a daeth at Lisol i weld arddangosiad o'r '*Pupil Data Pathway*'. Yn ystod yr arddangosiad, sylweddolodd Mark fod y system yn creu darlun cyfan o fywyd dyddiol ysgol a'i fod yn llawer mwy nag adnodd asesu'n unig.

> "we were keen not only to use it as an assessment manager but to fulfil wider needs"

Dywed Mark am y cyfarfod cyntaf hwn: "Unwaith roedd un o dîm Lisol wedi arddangos gallu'r system i ni, nid yn unig roeddem yn awyddus i'w ddefnyddio fel rheolwr asesu ond hefyd i ateb gofynion ehangach. Yn raddol sylweddolon ni gymaint yn fwy y gallai '*Pathways for Schools*' wneud drosom a bellach rydym yn defnyddio pump allan o'r saith llwybr sydd ar gael.

"Mae angen i chi edrych ar y manteision ehangach o ddefnyddio system fel hyn. Bydd defnyddio'r adnodd ar gyfer un peth yn unig yn golygu na fyddwch yn defnyddio'r system i'w llawn botensial.

"Trwy'r system, rydym bellach yn cwblhau amrywiaeth o dasgau o ysgrifennu adroddiadau, cyfathrebu gwaith i ddisgyblion, yn cofnodi digwyddiadau bugeiliol, yn nodi canlyniadau tasgau, i negeseua'n gilydd i drefnu gweithgareddau dyddiol sydd hyd yn oed yn cael eu harddangos ar ein sgrîniau arddangos o amgylch yr ysgol."

Mae pob ysgol yng Nghymru wedi derbyn yr hyn a elwir yn gronfa ail-fodelu'r gweithlu wrth y Cynulliad Cenedlaethol, a ddefnyddiwyd gan Lewis i gyflwyno'r system '*Pathways for School*'.

Yn ddiweddar, sefydlwyd grwp defnyddwyr gyda chriw o ddisgyblion er mwyn iddynt ddechrau logio i fewn i'r system adref a dod o hyd i waith cartref, gwirio amserlenni a graddau. Mae'r grwp defnyddwyr wedi gwneud awgrymiadau arbennig ar gyfer gwelliannau sy'n cael eu trafod yn ein cyfarfodydd datblygu. Hyd yn hyn, awgryma'r adborth fod disgyblion yn gweld yr opsiwn yma yn hynod o ddefnyddiol o safbwynt bod ar ben eu pethau o ran eu haddysg.

"Nawr mae adnoddau dosbarth yn cael eu rhoi ar-lein ar gyfer rhai dosbarthiadau yn ein hadrannau hanes a daearyddiaeth er mwyn treialu'r broses, felly pan mae aelod o staff yn absennol, gall nifer fawr o staff logio i fewn a gweld beth sydd i fod digwydd yn y dosbarth.

"Un o'r agweddau mwyaf defnyddiwr-gyfeillgar am y system yw'r ffaith ein bod yn medru addasu'r system er mwyn ateb ein gofynion. Mae Lisol yn ymatebol iawn i anghenion eu cwsmeriaid. Mae cynnal cyfarfodydd datblygu rhwng yr ysgolion sy'n defnyddio *Llwybrau* yn sicrhau fod ein hargymhellion yn cael eu clywed, eu trafod ac yna'n cael eu cyflwyno ar ôl proses o ddatblygu ac arbrofi."

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Lewis yn gweithio gyda Lisol ar brosiect arbrofol i drosglwyddo cofnodion academaidd o'r ysgolion cynradd i'r uwchradd. Mae'r arbrawf, y cyntaf o'i fath yn y DU, yn cael ei gefnogi gan AALI Caerffili.